Mae arolygwyr yn ymuno â ni heddiw.
Dewch i ddarganfod beth sy'n
digwydd yn Ein Meithrin Ni.



ISBN 978-1-80106-288-6
9 781801 062886

Estyn
Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales
atebol

EIN MEITHRIN NI
Manon Steffan Ros a Paul Nicholls

atebol

# Ein Meithrin Ni



Manon Steffan Ros
a Paul Nicholls



# Ein Meithrin Ni

**Diolch i'r Sefydliadau a'r Cylchoedd Meithrin canlynol am eu hadborth wrth ddatblygu'r llyfr stori.**

- Cylch Meithrin Cae'r Ffair
- Cylch Meithrin Ffrindiau Bach Tegryn
- Cylch Meithrin Gofal Maelog
- Meithrinfa Little Lambs Nursery
- Cylch Meithrin Llanhari
- Cylch Meithrin Llechryd
- Cylch Meithrin Penparc
- Meithrinfa Rachel's Playhouse Nursery
- Cylch Meithrin y Tonnau

Cyhoeddwyd gyntaf yng Nghymru yn 2022 gan
Atebol Cyfyngedig, Adeiladau'r Fagwyr,
Llanfihangel Genau'r Glyn, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AQ

Ysgrifennwyd gan Manon Steffan Ros
Darluniwyd gan Paul Nicholls
Dyluniwyd gan Dylunio GraffEG

Hawlfraint © Atebol Cyfyngedig 2022
978-1-80106-288-6

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd, electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio neu drwy gyfrwng unrhyw system storio ac adfer, heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

Golygwyd gan Adran Olygyddol Cyngor Llyfrau Cymru

atebol.com

# Ein Meithrin Ni



Manon Steffan Ros
a Paul Nicholls

Estyn

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

atebol

Rydym yn gobeithio y byddwch chi a'r plant yn eich lleoliad wrth eich boddau'n darllen a rhannu'r stori hon gyda'ch gilydd. Y gobaith ydy y bydd plant yn mwynhau ailymweld â'r llyfr a'r darluniau hardd a bywiog dro ar ôl tro.



Prif bwrpas y stori ydy dangos i blant nad oes angen iddynt boeni pan fydd arolygwyr yn ymweld â'r lleoliad. Rydym yn dymuno rhannu'r neges ei bod hi'n ddiwrnod arferol, gyda'r arolygwyr yn ymddiddori yn yr hyn mae'r plant yn ei wneud, a'u bod yn mwynhau sgwrsio â nhw am eu gweithgareddau amrywiol. Beth am dynnu sylw'r plant at yr hyn mae'r arolygwyr yn ei wneud o fewn y stori, er enghraifft: sgwrsio, edrych ar luniau'r plant, a rhannu llyfr. Gallwch hefyd annog y plant i chwilio am y bochdew sy'n cuddio ar bob tudalen. Yn ogystal â hyn, mae cyfleoedd gwych i blant uniaethu â'r digwyddiadau yn y stori ac mae'n sbardun effeithiol i drafodaethau pellach o fewn eich grwpiau.



### Wrth gyd-ddarllen y stori, efallai y byddwch yn dymuno:

- **Stopio hanner ffordd a thrafod rhai o'r digwyddiadau**
  - Pa fath o bethau mae'r plant wedi bod yn eu gwneud yn y stori?
  - Beth rydych chi'n sylwi sy'n digwydd yn y lluniau?
  - Beth rydych chi'n meddwl mae'r arolygwr hwn yn ei ddweud?
  - I ble rydych chi'n meddwl y bydd yr arolygwyr yn mynd nesaf?
  - Beth rydych chi'n meddwl mae'r plentyn yn ei ddweud wrth yr arolygydd?
  - Sut rydych chi'n meddwl mae'r plentyn hwn yn teimlo?

### Ar ôl darllen y stori, efallai y byddwch yn dymuno:

- **Atgyfnerthu'r syniadau allweddol**
  - Mae arolygwyr yn mynd i ymweld â'ch lleoliad
  - Y gwahaniaeth rhwng ymwelwyr a dieithriaid
  - Gall plant ddal ati fel arfer
  - Bydd yr arolygwyr yn hoffi sgwrsio â'r plant
  - Nid oes atebion cywir nac anghywir
- **Rhoi sicrwydd i'r plant y bydd y diwrnod y daw'r arolygwyr yn teimlo fel diwrnod arferol**
- **Esbonio i unrhyw blant hŷn sy'n mynychu'r lleoliad y gallai'r arolygwyr fod eisiau sgwrsio â nhw**
- **Esbonio i'r plant efallai na fydd yr arolygwyr sy'n dod i'ch lleoliad yn edrych yr un fath â'r rhai yn y stori.**









Mae'n fore braf yn ein meithrin ni.
Mae bron yn amser dysgu.
Cawn chwerthin iach a hwyl a sbri,
A chwarae, a chael stori.

"Mae arolygwyr yma heddiw
I'n gweld ni," meddai Jên.
Mae'r ddau yn codi llaw yn llon
Ac yn gwenu'n hynod glên.



Mae'r arolygwyr yn edrych ymlaen,
I weld ein hanturiaethau,
Ac felly, fe gawn gario 'mlaen
I joio gyda'n ffrindiau.




Mae Oscar mewn gwisg crocodeil
Yn stompio'i draed wrth ddawnsio,
A môr-forynion llawen, llon
Sy'n torri ac yn gludio.

Mae Tomi Wyn a Gracie Mai
Yn chwarae gwisgo i fyny.
Mae Tomi'n dewis clogyn gwrach
A chath fach wen yw Gracie.






Welsoch chi 'rioed wrach-gwallt-glas
Mewn sgidiau tywysoges?
A chath yn mewian nerth ei phen
Mewn coron, fel brenhines?

Yn y twba dŵr, mae tonnau mawr
Mewn môr sy'n llawn o bysgod,
A Mo a Mai yn esgus bach
Fod parti mawr i'r siarcod.





Dan y gwrych, mae Rob ac Ann
Yn chwilio am ryw chwilod.
A dacw nhw! Dwy chwilen ddu
A'u ffrindiau, y corynnod.



Stadiwm fawr yw'r ardd i ni
A Priya yn y gôl.
Mae Erin yn rhoi cic i'r bêl
A Priya'n taflu'n ôl.

“Amser bwyd!” cyhoedda Jên.
“Dewch i olchi dwylo!”
Mae pawb yn aros gyda gwên
Yn disgwyl cael eu bwydo.

O! Dyna flasus! Grawnwin bach,
Bananas ac afalau,
Dŵr i dorri’n syched ni,
A llond ein bol o ffrwythau.



Ar ôl bwyd, mae John a Rhun
Yn mynd i'r gornel baentio
I greu darlun anferth, hardd
A lliwiau'n dawnsio drosto.

"Mae hon yn enfys liwgar.
Sawl lliw a welwch chi?"
"Coch a melyn, gwyrdd a glas
A phiws, fy hoff liw i!"



Dyna hwyl sydd i'w chael
Yn y gornel ddarllen –
Hassan sydd ar goll mewn llyfr
Am ddeinosor bach llawen.




Llyfr llon am ddafad wlanog
Mae Evie'n craffu arno.
Ym mhob llyfr, mae antur fawr
A hwyl a sbri a chyffro.

Mae bron yn ddiwedd dydd yn awr
Ac amser i ffarwelio.
Mae'r arolygwyr yn dweud, "Hwyl fawr
A diolch am y croeso."





Bydd ’fory’n ddiwrnod newydd sbon
Yn llawn o anturiaethau,
Yn paentio, darllen, chwarae’n llon,
A chwerthin gyda’n ffrindiau.

